# Pwyllgor Y Ty

## HC(2) 07-05 (Cofnodion)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Gorffennaf 2005 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd |

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol

Lorraine Barrett, AC Llafur

David Melding, AC Ceidwadwyr

Christine Gwyther, AC Llafur

Jane Hutt, AC Llafur

Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty

Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd

Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau

Mike Snook, Pennaeth Adnoddau Dynol

Catherine Morris, Swyddog Seneddol Gweithredol

Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau:**

Y Llywydd

Janice Gregory, AC Llafur

William Graham, AC Ceidwadwyr

| | |
|---|---|
| | Croesawodd y Cadeirydd Christine Gwyther a David Melding i'r cyfarfod. |
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi** |
| | Nododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin. Wrth gyfeirio at eitem 2.8, mân waith newydd (HC(2)-06-05(p8)) ar dudalen 5, cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid ychwanegu brawddeg newydd at ddiwedd y trydydd paragraff. Felly, dylai'r trydydd paragraff ddarllen fel a ganlyn:<br><br>"Cytunodd Aelodau y dylent aros am amcangyfrif manylach cyn y tendr a manyleb manwl ar gyfer addasu ac ehangu Ystafell De'r Aelodau i ddarparu Ystafell Fwyta/Bwyty ar gyfer yr Aelodau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Glerc ymchwilio i'r posibilrwydd y bydd y sector preifat yn cynorthwyo â'r gost ailddatblygu. *Fodd bynnag, cytunodd Pwyllgor y Ty na ddylid gwneud unrhyw benderfyniad cyn cynnal asesiad llawn a phriodol o'r adeilad newydd.*"<br><br>Trafododd yr Aelodau pwy ddylai dderbyn copi o gofnodion Pwyllgor y Ty. Pan fyddai'r cofnodion drafft yn cael eu dosbarthu at ddiben cyflwyno sylwadau, cytunwyd y dylai staff cymorth personol Aelodau Pwyllgor y Ty hefyd dderbyn copi.<br><br>**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth** |

| | |
|---|---|
| | |
| **1.1** | **Camau sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-07-05(p1)** |
| | **Newidiadau i ddyraniad TGCh yr Aelodau**<br><br>Nodwyd bod un Aelod yn parhau i ddisgwyl am gael eitemau o offer TGCh wedi'u gosod yn iawn i'w defnyddio yn swyddfa'r etholaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yn rhaid defnyddio'r dyraniad ychwanegol o £3k fesul Aelod at ddibenion TGCh. Gofynnodd i Gwen Parry baratoi papur ychwanegol i roi esboniad pellach ar y mater.<br><br>**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**<br><br>**System ddolen y Siambr**<br><br>Adroddodd Gwen Parry nad oedd system ddolen ar gael i'w defnyddio yn y Siambr. Cafwyd problemau gyda system ddolen yr oriel gyhoeddus, ond bellach yr oedd yn gweithio'n iawn.<br><br>**Gwerthu pryd yn cynnwys cig i lysfwytawr**<br><br>Adroddodd Nerys Evans fod y mater wedi'i godi gyda rheolwr y bwyty a'r aelod perthnasol o'r staff arlwyo.<br><br>**Awyru yn y Siambr**<br><br>Adroddodd Nerys Evans fod y fentiau awyr uwchben seddi 4,5 ac 16 wedi'u haddasu.<br><br>**Gweithdrefnau gwacáu'r adeilad yn achos tân**<br><br>Ym marn y Cadeirydd, yr oedd angen system larwm tân gynhwysfawr a oedd yn cael ei deall yn iawn gan bawb. Rhaid sicrhau na fyddai unrhyw gamgymeriadau o ran y trefniadau i wacáu'r adeilad yn achos tân. Nododd y Pwyllgor y byddai'r papur y gofynnodd amdano ar y gweithdrefnau yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf yn yr Hydref.<br><br>**Camau i'w cymryd: Nerys Evans**<br><br>**Darlledu o'r Neuadd gan bleidiau gwleidyddol**<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon y canllawiau cyfredol ar gyfer defnyddio'r Neuadd at yr |

| | |
|---|---|
| | Aelodau.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**<br><br>**Ymweliadau â Meddygon Teulu**<br><br>Dywedodd Mike Snook fod cyngor eisoes wedi'i ddosbarthu ar sut y gall Aelodau weld meddyg teulu yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd fod y trefniant hefyd ar gael ar gyfer staff cymorth. |
| **2** | **Eitemau i'w trafod** |
| **2.1** | **Y trefniadau parcio ceir HC(2)-07-05(p2)** |
| | Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried tri opsiwn ar gyfer y trefniadau parcio ceir a chynghori'r swyddogion er mwyn iddynt baratoi papur arall i'r Pwyllgor ei ystyried yn yr Hydref.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylai'r argymhellion gynnwys staff cymorth ond gan fynegi'r farn na ddylai unrhyw gostau'n deillio o hynny gael eu talu o Lwfansau'r Aelodau. Nodwyd y byddai anawsterau wrth geisio gwahaniaethu rhwng staff GSC a gweision sifil eraill cyn y gwahanu.<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid datblygu opsiynau B ac C ymhellach, i'w hystyried gan y Pwyllgor yn yr Hydref.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan** |
| **2.2** | **Contractau HC(2)-07-05(p3)** |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r contractau y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer contractau a'r cyfrifoldeb drostynt mewn perthynas â gwaith y prosiect gwahanu.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y contract glanhau presennol yn cynnwys amodau a thelerau boddhaol ar gyfer y glanhawyr. Cytunodd yr Aelodau bod angen papur manylach cyn iddynt roi unrhyw gyngor strategol ynghylch y contractau gwasanaethau dan ofal y Cynulliad. Gofynnwyd i Nerys Evans baratoi papur arall i'r Pwyllgor ei ystyried yn yr Hydref.<br><br>**Camau i'w cymryd: Nerys Evans** |
| **2.3** | **Diweddariad ar yr Arolwg (gan gynnwys y bws gwennol, gofal plant ac ysmygu) HC(2)-07-05(p4)** |
| | Rhoddwyd dadansoddiad cychwynnol i'r Aelodau o'r arolwg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2005 o farn y gweithwyr yn yr adeilad ynghylch y cyfleusterau gofal plant, y defnydd o'r bws gwennol a'r polisi ysmygu.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid ystyried canlyniadau'r arolwg yn ofalus. Wrth ymateb, dywedodd Jane Hutt ei bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Dirprwy Glerc ynghylch darparu cyfleusterau creche. Yr oedd rhai materion o bwys eto i'w hystyried, megis y cwestiwn o rannu'r cyfleusterau gyda chyflogwyr eraill cyfagos, ac a ddylid darparu meithrinfa lawn. Nodwyd y gallai darparu cyfleusterau creche fod yn fanteisiol wrth geisio denu staff newydd.<br><br>Cytunwyd y dylid gwneud penderfyniad ar ysmygu yn Adeilad y Cynulliad pan fyddai canlyniadau'r arolwg wedi'u didoli a'u cyflwyno i Bwyllgor y Ty yn ei gyfarfod cyntaf yn yr Hydref.<br><br>Nodwyd hefyd fod y broses o adnewyddu'r contract ar gyfer y bws gwennol wedi dod i ben gan nad oedd y tendrau'n cydymffurfio â'r gofynion amgylcheddol. Felly, yr oedd y contract presennol wedi'i ymestyn tan fis Mehefin 2006.<br><br>**Camau i'w cymryd: Nerys Evans** |

| | |
|---|---|
| **2.4** | **Y newyddion diweddaraf ar y Senedd HC(2)-06-05(p5)** |
| | Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i Bwyllgor y Ty ar y broses o adeiladu, dodrefnu a gosod offer yn y Senedd, ynghyd â'r materion gweithredol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y trefniadau arfaethedig o ran mynediad i'r adeilad, ac i nodi a oeddynt yn dymuno i'r bont gyswllt ar gyfer gwasanaethau ar y llawr cyntaf fod ar gael at ddefnydd cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau'r Cynulliad gael defnyddio'r ddwy bont gyswllt, ond y dylai ymwelwyr ddefnyddio'r bont gyswllt ar yr ail lawr.<br><br>Cafwyd sylwadau gan Aelodau ar y llwybr o'r adeilad presennol i'r Senedd. Nodwyd y byddai'n rhaid addasu'r bwyty er mwyn cael mynediad i'r bont gyswllt ar y llawr cyntaf.<br><br>Trafododd yr Aelodau y trefniadau i roi mynediad i'r coridorau i ohebwyr ac ymwelwyr. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n briodol cael mannau rheoli mynediad yn ymyl y drysau i'r Siambr. Cadarnhaodd Nerys Evans y byddai modd rhaglennu'r system i roi mynediad agored i'r Aelodau ar adegau arbennig. Cytunodd Pwyllgor y Ty bod materion eraill gweithredol, materion yn ymwneud â diogelwch a mynediad y byddai'n rhaid eu hystyried ymhellach. Dywedodd y Dirprwy Glerc y byddai papur pellach yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Pwyllgor.<br><br>Nododd y Pwyllgor ei bod yn debygol y byddai Adeilad y Senedd yn cael ei drosglwyddo o ddwylo'r contractwyr i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod mis Medi. Byddai cyfres o ymweliadau i ymgyfarwyddo â'r adeilad yn cael eu cynnal o ganol mis Medi hyd fis Hydref ar gyfer Aelodau, staff cymorth a swyddogion. Byddai'r cyfnod o ddodrefnu a gosod offer yn digwydd yn ystod tymor yr hydref, gyda'r Cyfarfod Llawn cyntaf yn y Siambr newydd yn cael ei gynnal yn ôl pob tebyg yn y Flwyddyn Newydd.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan** |
| **2.5** | **Gwasanaethau TGCh yr Aelodau – gwelliannau band eang HC(2)-07-05(p6)** |
| | |

| | |
|---|---|
| | Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ddylid cynnig ail ddull o gysylltu at ddata i Aelodau'r Cynulliad, gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron presennol a gyflenwir gan y Cynulliad, a phenderfynu pa opsiwn i'w gynnig:<br><br>• cyswllt band eang busnes, gyda lefel uchel o reolaeth a chefnogaeth ragweithiol;<br>• cyswllt band eang preifat o 1 Mb, neu<br>• gyswllt band eang preifat o 2 Mb.<br><br>Cafwyd trafodaeth fer ar y posibilrwydd o addasu'r cysylltiadau preifat sydd eisoes yn bodoli. Cytunwyd y byddai hynny'n arwain at oblygiadau o ran diogelwch, cost a chontractau. Cytunodd Pwyllgor y Ty i argymell y trydydd opsiwn, sef cyswllt band eang preifat o 2 Mb.<br><br>Adroddodd rhai Aelodau eu bod yn cael trafferthion gyda'r cysylltiadau band eang yn eu swyddfeydd etholaethol. Gofynnwyd i Gwen Parry wneud ymholiadau pellach.<br><br>**Camau i'w cymryd: Gwen Parry** |
| **2.6** | **Costau Merlin ar gyfer y Senedd HC(2)-07-05(p7)** |
| | Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried yr opsiynau ar gyfer talu am yr offer TGCh, yr offer clyweledol a'r offer darlledu yn y Senedd, a phenderfynu pa opsiwn y dylid ei ddatblygu yn ystod yr haf i'w gyflwyno i gyfarfod cyntaf Pwyllgor y Ty yn yr Hydref. Rhoddwyd dau opsiwn gerbron yr Aelodau:<br><br>• Opsiwn o wasanaeth wedi'i reoli, gan ymestyn y costau caffael a’r costau cynnal-a-chadw dros gyfnod hirach;<br>• Opsiwn cymorth safonol, gyda phryniant cyfalaf a gwasanaeth parhaus yn cael ei ddarparu wedi hynny.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar yr opsiwn i gael gwasanaeth wedi'i reoli, gan ei fod yn peri llai o risg, a bod y costau'n gymharol â'r opsiwn arall. |
| **2.7** | **Cadw'r cyfleusterau darlledu yn adeilad presennol y Cynulliad HC(2)-07-05(p8)** |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynodd Gwen Parry bapur i Bwyllgor y Ty yn gofyn am gymeradwyaeth i gadw'r cyfleusterau darlledu yn y siambr bresennol. Argymhellodd y papur y dylid cadw'r Siambr bresennol fel y gellid ei defnyddio fel cyfleuster wrth gefn. Dywedodd bod manyleb wedi'i llunio, yn cynnwys mewnbwn gan y darlledwyr, gydag amcangyfrif diwygiedig o £280k ar gyfer caffael, gosod a phrofi'r holl offer a fyddai'n sicrhau bod y ddwy siambr yn barod i'w defnyddio ar yr un adeg. Gellid ariannu'r gwaith o symiau a oedd eisoes ar gael (Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn).<br><br>Trafododd yr Aelodau y cynigion. Yr oeddynt yn pryderu ynghylch gwario swm mawr o arian ar gyfleuster na fyddai, o bosib, yn cael ei ddefnyddio'n aml. Yn ogystal, yr oedd yr Aelodau wedi cytuno yn y gorffennol na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud ar y gofod fyddai ar gael yn yr adeilad presennol tan ar ôl i'r Senedd gael ei defnyddio am ychydig fisoedd. Felly, nid oeddynt yn credu y gallai'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar hyn o bryd ar ddefnydd y Siambr bresennol. Wrth ymateb, dywedodd Gwen Parry na fyddai cyfle arall i Bwyllgor y Ty drafod y mater tan fis Hydref.<br><br>Yr oedd Pwyllgor y Ty o'r farn y dylid gwrthod yr argymhellion oni bai y gallai'r swyddogion gyflwyno dadleuon cryfach. Byddai'n rhaid i unrhyw gynnig newydd gael ei gyflwyno i'r Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor erbyn 10 Medi 2005 fan bellaf.<br><br>**Camau i'w cymryd: Gwen Parry** |
| **2.8** | **Trosglwyddiadau arfaethedig yng nghyllideb 2005 – 2006 HC(2)-07-05(p9)** |
| | Cytunodd yr Aelodau y dylai Pwyllgor y Ty gymeradwyo'r trosglwyddiadau o un Prif Grwp Gwariant (MEG) i Brif Grwp Gwariant arall, ac y dylid cyflwyno cynnig i'r perwyl hwn gerbron y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd, gyda chynnig cyfatebol i newid cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **2.9** | **Y diweddaraf ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2006 – 2007 HC(2)-07-05(p10)** |

Adroddodd y Dirprwy Glerc fod y Cadeirydd wedi cynnal cyfarfod gyda'r Gweinidog Cyllid y diwrnod cynt i drafod y cynigion ar gyfer cyllideb GSC 2006 – 2007. Yn dilyn y drafodaeth honno, a thrafodaethau rhwng y swyddogion, rhoddodd y newidiadau posibl canlynol gerbron y Pwyllgor i'w hystyried:-

- **Cyflogau a lwfansau'r Aelodau** – yr oedd y papur ar y gyllideb ym mis Mehefin yn cyfeirio at £0.53m ychwanegol ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau, er mwyn cyfrif am effaith y cynnydd yn deillio o argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB). Dros y blynyddoedd diweddar, bu tanwariant ar y gyllideb, a thanwariant o £1.36m y llynedd. Fodd bynnag, yn y flwyddyn gyfredol, cwtogwyd ar y gyllideb o £0.4m fel rhan o setliad diweddaraf y gyllideb, a chytunwyd y byddai unrhyw gostau uwchlaw'r swm yn y gyllideb yn dod o danwariant a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF). Awgrymwyd y byddai'r costau ychwanegol arfaethedig ar gyfer 2006/7 yn cael eu talu o'r tanwariant a gronnwyd. Gellid gwneud y newid hwn, cyn belled â bod unrhyw or-wariant yn 2006/7 yn cael ei gydnabod yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

- **Costau rhedeg y Senedd** – Awgrymwyd y gellid ymdrin â'r costau'n deillio o agor yr adeilad am 7 niwrnod drwy ddefnyddio tanwariant a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn ddilynol, er mwyn caniatáu hyblygrwydd. Yna byddai modd ystyried y mater ar gyfer cyllideb 2007/8 yng ngoleuni'r profiad o redeg yr adeilad.

- **Gwahanu** – nodwyd y byddai angen swyddi newydd ychwanegol o fewn GCS er mwyn ymdrin â'r anghenion o ganlyniad i ddiwygio'r Cynulliad. Gellid ariannu'r swyddi hyn ar wahân, drwy drosglwyddiadau yn y gyllideb y cytunwyd arnynt mewn perthynas â gwahanu gwasanaethau.

- **Gwella gwasanaethau** – gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych eto ar y cynigion i wella gwasanaethau, a chadarnhau ei fod yn dymuno symud ymlaen â'r cynigion.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar yr adroddiad. Cytunodd neu nododd y Pwyllgor:

I. y dylai fod yn ddarbodus wrth ystyried cyllideb GSC, ac y dylai unrhyw gynnydd fod yn gymedrol a bod modd ei gyfiawnhau;
II. y dylai'r swyddi newydd mewn perthynas â diwygio'r Cynulliad gael eu hariannu ar wahân;
III. nodwyd y byddai'r ffigur uchel ar gyfer Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn lleihau'n sylweddol ar ôl cwblhau'r rhaglenni presennol y cytunwyd arnynt;
IV. cytunodd yr Aelodau y dylid cynyddu'r gyllideb ar gyfer 2006 – 2007 o 5% o'i gymharu â'r gyllideb bresennol (wedi'i gynyddu i gydnabod y trosglwyddiadau MEG i MEG arfaethedig);

| | |
|---|---|
| | V. byddai papur pellach yn cael ei baratoi a'i anfon at yr Aelodau yn amlinellu sut y gellid cyflawni'r ymrwymiad hwn, a byddai cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor yn cael ei alw ym mis Medi i gymeradwyo'r gyllideb derfynol petai angen;<br>VI. cytunwyd i leihau cyflogau a lwfansau'r Aelodau o £0.53m, ar y ddealltwriaeth y gellid adfer y swm yn 2007/8 petai'r gwariant ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau uwchlaw'r swm a ddarparwyd yn y gyllideb a gwtogwyd.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan/Wayne Cowley** |
| **2.10** | **Adroddiad Blynyddol – Lwfansau a threuliau'r Aelodau HC(2)-07-05(p11)** |
| | Cytunodd yr Aelodau y dylid cyhoeddi'r templed a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf yn Adroddiad Blynyddol 2004/05. |
| **3** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **3.1** | **Papur ar berfformiad yn erbyn targedau HC(2)-07-05(p12)** |
| | Nodwyd y papur gan Bwyllgor y Ty. Gofynnwyd i Paul Silk, ar ran y Pwyllgor, i longyfarch y Cofnod am lwyddo i gyrraedd cyfradd o 100% ar gyfer cyhoeddi'r cofnod ar ôl pob cyfarfod pwyllgor. Nodwyd bod nifer y ceisiadau am ymchwil wedi gostwng, ond y gallai hyn fod o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer a safon y papurau briffio a gyhoeddwyd, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan yr Aelodau.<br><br>**Camau i'w cymryd: Paul Silk** |
| **3.2** | **Adroddiad misol Adnoddau Dynol HC(2)-07-05(p13)** |
| | Nodwyd yr adroddiad gan Bwyllgor y Ty. |
| **3.3** | **Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-07-05(p14)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |
| **3.4** | **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth HC(2)-07-05(p15)** |
| | Nododd yr Aelodau y papur. |

| | |
|---|---|
| **4** | **Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad** |
| 4.1 | **OAQ0006(HC)**<br><br>Nododd yr Aelodau fod yr ateb a gyflwynwyd ar 29 Mehefin wedi'i ddosbarthu. |
| **5** | **Unrhyw Fater Arall** |
| 5.1 | **Y system bost**<br><br>Adroddodd David Melding fod post dosbarth cyntaf weithiau'n cymryd hyd at dridiau i gyrraedd pobl yn y Cynulliad. Wrth ymateb, dywedodd Nerys Evans fod yr holl bost yn cael ei ddidoli a'i ddosbarthu cyn gynted ag y derbyniwyd ef yn yr adeilad, ond y byddai'n gwneud ymholiadau pellach. |
| 5.2 | **Rheoli'r Senedd**<br><br>Dywedodd y Dirprwy Glerc y byddai papur ar y broses o reoli a rhedeg y Senedd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Ty yn yr Hydref.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan/Nerys Evans/Gwen Parry** |
| 5.3 | **Y Datganiad diwygiedig ar Ddarparu Gwasanaethau Dwyieithog**<br><br>Atgoffodd Karin Phillips yr Aelodau y dylid anfon sylwadau ar y papur diwygiedig ati. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau erbyn diwedd mis Gorffennaf. |
| 5.4 | **Prosiect busnes y Pwyllgorau**<br><br>Adroddodd Karin Phillips y bu'r Cadeirydd mewn cyflwyniad ar system gyfrifiadurol ar gyfer rheoli busnes y Pwyllgorau. Yn ddelfrydol, dylid cyflwyno unrhyw system newydd ym mis Ebrill 2006. Byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr Hydref.<br><br>**Camau i'w cymryd: Karin Phillips** |

| | |
|---|---|
| 5.5 | **Agoriad Swyddogol y Senedd**<br><br>Trafodwyd y gwahoddiadau ar gyfer seremoni agoriadol y Senedd. Adroddodd Gwen Parry nad oedd modd parhau â'r cynnig i bob Aelod wahodd un gwestai ychwanegol. Cytunodd yr Aelodau hefyd na ddylid gwahodd partneriaid gwesteion i'r seremoni, gan na fyddai digon o le ar gael.<br><br>Trafododd y Pwyllgor y gwahoddedigion rhyngwladol. Cytunwyd y dylid anfon gwahoddiad at Gwnsler Iwerddon yng Nghaerdydd. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylai gwahoddiadau i bobl Cymru gynnwys pob elfen o'r gymuned, er enghraifft, pensiynwyr, pobl ifanc, grwpiau gwirfoddol, busnesau, meiri / cadeiryddion awdurdodau lleol. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried gwahodd y gweision sifil oedd wedi gweithio ar y prosiect i'r seremoni. Yn ogystal, cytunodd yr Aelodau y dylid ystyried darparu sgrîn, er mwyn galluogi cynifer o bobl â phosib i wylio'r seremoni. |
| 5.6 | **Yr Urdd**<br><br>Trafododd yr Aelodau Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mae Caerdydd, o amgylch Adeilad y Pierhead a'r Basn Hirgrwn. Rhoddwyd gwybod y byddai'r Urdd yn dychwelyd i Fae Caerdydd eto ymhen tair neu bedair blynedd, a bod y trefnwyr wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio adeiladau'r Cynulliad. Yr oedd y Pwyllgor yn gytûn fod adeiladau'r Cynulliad yn eiddo i holl bobl Cymru. Fodd bynnag, byddai angen canllawiau ffurfiol ynghylch a ellid defnyddio ystad y Cynulliad at ddibenion o'r fath, a dylid drafftio'r canllawiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Felly, byddai penderfyniad ar y mater yn cael ei wneud maes o law.<br><br>**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan** |
| 5.7 | **Statws diogelwch**<br><br>Ategodd y Pwyllgor weithred y Clerc wrth godi'r statws diogelwch yn y Cynulliad i ambr yn dilyn yr ymosodiadau gan derfysgwyr yn Llundain yr wythnos cynt. Atgoffodd y Clerc Bwyllgor y Ty fod yn rhaid i ymwelwyr gael eu hebrwng yn yr adeilad ar bob achlysur. |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Hydref 2005**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty** |